Jane Hutt AC
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth

07 Gorffennaf 2015

Annwyl Jane

**Ariannu yn y Dyfodol**

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y cyfarfod ar 25 Mehefin 2015 pan rhoesoch dystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid ynghylch ariannu i'r dyfodol.

Yn y cyfarfod cytunwyd y byddech yn darparu:

- copi o ddatganiad y Trysorlys o 2012 mewn perthynas â chydgyfeirio; a
- nodyn yn amlinellu'r hyblygrwydd o ran cyllid a ofynnwyd amdano fel rhan o broses Dydd Gŵyl Dewi.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth mae gan yr Aelodau rai ymholiadau pellach a byddem yn ddiolchgar pe baech yn gallu ymateb iddynt, atodir yr ymholiadau hyn yn Atodiad A.

Yn ychwanegol, byddai'r Aelodau yn ddiolchgar cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau ar gyfer yr addasiad sydd angen ei wneud i'r grant bloc mewn perthynas â threthi datganoledig.

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir

**Jocelyn Davies**

**Cadeirydd**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

**Atodiad A**

Mae Llywodraeth y DU wedi datgan bod ganddi ddiddordeb trafod cytundebau dinas unigol, gan gynnwys cytundeb â Chaerdydd o bosibl. Sut y byddai cyllid ar gyfer cytundeb dinas yn gweithredu o ran y grant bloc?

O gofio bod datblygu economaidd yn fater sydd wedi'i ddatganoli, a ddylid annog Trysorlys EM i ddarparu'r holl gyllid ar gyfer cytundebau dinas drwy'r grant bloc, a gaiff ei ddyrannu gan y Cynulliad Cenedlaethol?

A ddylid datganoli cyllid o lywodraeth ganolog i lywodraeth leol yng Nghymru, fel sy'n digwydd yn Lloegr?

Mae'r Pwyllgor wedi clywed mai Cymru yw'r unig weinyddiaeth ddatganoledig nad sy'n cyhoeddi gwybodaeth am y balans rhwng ei refeniw a'i gwariant. Pa mor bwysig yw cyfrifo a rhagamcan sefyllfa gyllidol gyffredinol y sector cyhoeddus yng Nghymru?

Sut y dylid rheoli'r arian a fenthycir a'r trethi a godir gan awdurdodau lleol oddi mewn i'r system ehangach yng Nghymru o ran benthyca a threthi?

A ydych chi'n credu y dylid paratoi mantolen ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru?

Sut y gall Llywodraeth y DU roi mwy o sicrwydd i'r gweinyddiaethau datganoledig ynghylch eu cyllid yn y dyfodol?